# Cyfarfod Fforwm Gwirfoddolwyr: Cofnodion

## 6ed Tachwedd 2024, 1.30 – 3.30pm, Haverhub

**Yn bresennol:**, David Fisher (DF), Gordon Lewis (GL), Roy Partington (RP), Rebecca Evans (RE), Sally Boyton (SB), Michele Chung (MC) – Ar-lein

**Ymddiheuriadau:** Karin Howells, Helen Clarke, Ellie Sherwin, Jon King, Granville Watson, Madeleine Bland

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

## 2. Diweddariadau o'r cyfarfod blaenorol

| Diweddariad | Cam gweithredu |
|---|---|
| **Siart trefniadaeth**<br>Rhannwyd y fersiwn ddiweddaraf o siart trefniadaeth APCAP gyda'r grŵp a thynnwyd sylw at yr adrannau y mae gweithgarwch gwirfoddolwyr yn eu cefnogi. | SB i ychwanegu at Effaith Well |
| **Monitro llwybrau troed**<br>Mae cyfarfod blynyddol wedi'i drefnu gyda Chris Taylor i alluogi'r tîm i gwrdd â'i gilydd, i drafod y mathau o faterion sy'n cael eu hadrodd ac i hyrwyddo safoni mewn mapiau/adroddiadau. | Rebecca i gadarnhau'r lleoliad |
| **Gwirfoddolwyr yn cefnogi wardeniaid**<br>Mae'r Adolygiad Cefn Gwlad ar y gweill a fydd yn ystyried sut y gall gweithgarwch gwirfoddolwyr gefnogi wardeniaid APCAP wrth symud ymlaen. | |
| **Gwisg unffurf**<br>Rhannodd RE fod y polisi gwisg unffurf gwirfoddolwyr yn y broses o gael ei ddiweddaru. Cytunwyd y bydd y ddarpariaeth gwisg safonol yn cynnwys:<br>• Polo llewys byr NEU lewys hir<br>• Cnu<br>• Gwisg dal dŵr (ar gyfer rolau awyr agored yn unig)<br><br>Mae'r polisi hefyd yn galluogi gwirfoddolwyr i ofyn am eitemau newydd (oherwydd traul dros gyfnodau hir o amser) trwy eu rheolwr llinell.<br><br>Mae bathodynnau ar gyfer gwirfoddolwyr newydd neu dymor byr yn cael eu trafod - bu'r grŵp hefyd yn trafod y posibilrwydd o gael bathodynnau pin i wahaniaethu rhwng rhai grwpiau o wirfoddolwyr, ee Llwybrau, i alluogi'r cyhoedd i ddeall pwrpas y grŵp. | RE i ystyried bathodynnau grŵp penodol<br><br>RP a DF i ofyn i'r grŵp Llwybrau am adborth ar y syniad hwn. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Lleoliad sych ar gyfer sesiynau Llwybrau tywydd gwlyb**<br>Mae darparu lleoliad i alluogi gweithgareddau Llwybrau a chymorth cyfranogwyr i barhau mewn tywydd gwlyb yn dal i gael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel.<br><br>Cadarnhaodd RE fod depo Llwynhelyg yn cael ei ystyried fel ateb hirdymor. Mae lle hefyd i ddefnyddio lloches yn Sain Ffraid. | RE i roi'r wybodaeth ddiweddaraf pan fydd cynnydd pellach wedi'i wneud. |
| **Arweinwyr teithiau cerdded llesiant (agweddau cyfreithiol)**<br>Cadarnhaodd RE fod asesiadau risg safonol APCAP a'r polisi yswiriant gwirfoddolwyr yn darparu yswiriant digonol i arweinwyr teithiau cerdded Iechyd a Llesiant arwain teithiau cerdded yn annibynnol. Mae rheolwyr llinell y gwirfoddolwyr yn ymrwymo i ddarllen yr asesiadau risg yn flynyddol a defnyddio mesurau rheoli i leihau risg lle bo modd.<br><br>Gofynnodd y grŵp i wirfoddolwyr perthnasol gael eu hatgoffa o'r broses hon drwy e-bost. | RE i ofyn i Ben Macare rannu asesiadau risg/amlinellu'r broses gyfredol gyda'r gwirfoddolwyr perthnasol.<br><br>RE i rannu crynodeb o'r broses gydag MC i'w galluogi i roi wybodaeth ddiweddaraf i'r Ceidwaid Ieuenctid. |
| **Sesiynau Llwybrau**<br>Rhoddodd RE ganiatâd i Fentoriaid Llwybrau arwain sesiynau untro yn absenoldeb yr arweinydd Mitch.<br>Cytunwyd y dylid rhoi gwybod am ddyddiadau cyn i'r rhaglen Llwybrau gael ei dosbarthu er mwyn galluogi cyfranogwyr i ymrwymo a threfnu presenoldeb gweithiwr cymorth perthnasol.<br>Cytunwyd i dreialu sesiwn ddiwedd mis Tachwedd. | RP a DF i gynhyrchu rhestr o leoliadau/gweithgareddau posibl ar gyfer sesiwn brawf. |
| **Monitro cadwraeth/bywyd gwyllt**<br>Cadarnhaodd RE fod cynlluniau i gyflwyno mwy o gyfleoedd ar gyfer monitro cadwraeth a bywyd gwyllt yn 2025. Mae cyfarfod ym mis Ionawr wedi ei drefnu i drafod ymhellach. | |

## 3. Diweddariadau gan aelodau'r Fforwm

| Diweddariad | Cam gweithredu |
|---|---|
| Rhannodd aelodau'r Fforwm y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau gwirfoddolwyr drwy e-bost cyn y cyfarfod a chynigiodd RE y dylid ailadrodd y broses hon er mwyn arbed amser yng nghyfarfodydd y fforwm yn y dyfodol a galluogi eitemau penodol i gael eu hamlygu/cwestiynu lle bo'n berthnasol. Pawb wedi cytuno. | RE i ddosbarthu diweddariadau gweithgarwch i aelodau'r fforwm. |

## 4. Diweddariadau APCAP

| | |
|---|---|
| **Hyfforddiant Recriwtio mwy Diogel**<br>Mynychodd RE hyfforddiant ar y pwnc hwn yn ddiweddar a rhannodd fod APCAP yn gweithio i wella eu gweithdrefnau 'recriwtio diogel' i sicrhau bod staff a gweithwyr/gwirfoddolwyr yn profi arfer da. | |
| **Rolau gweinyddol**<br>Dywedodd RE fod rhai datganiadau o ddiddordeb wedi dod i law ar gyfer y rolau hyn ers cylchredeg y cyfleoedd ar 05/11. | RE i ymateb i ymholiadau. |
| **Penwythnos Gwirfoddoli Mawr UK Parks**<br>Cynhaliwyd dau ddiwrnod gwirfoddoli i gyd-fynd ag ymgyrch UK Parks i ddathlu gwirfoddoli ledled y wlad.<br><br>**Gwener 20fed Medi – Castell Henllys**<br>Y consensws cyffredinol oedd ei fod yn gyfle gwych i staff, aelodau a gwirfoddolwyr gydweithio mewn lleoliad unigryw tra'n cael sgyrsiau diddorol. Ychydig iawn o staff oedd yn bresennol ond teimlwyd bod hwn yn fan cychwyn da i adeiladu arno, ar gyfer cynnal digwyddiad arall yn 2025.<br><br>**Sadwrn 21ain Medi – Freshwater East**<br>Digwyddiad a fynychwyd gan lawer gan ddenu cymysgedd o oedrannau a chefndiroedd gan gynnwys pobl leol ac ymwelwyr, gan alluogi sgyrsiau a mewnwelediad pellach i wirfoddoli yn gyffredinol. Rhannodd MC fod y digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i geidwaid ieuenctid weithio ochr yn ochr â gwirfoddolwyr sy'n oedolion a gofynnodd i ddigwyddiadau tebyg gael eu cynnal. | RE/SB i drefnu rhagor o ddigwyddiadau yn 2025 |
| **Dathlu Gwirfoddolwyr**<br>Roedd yr adborth yn gadarnhaol yn dilyn y digwyddiad yng Nghastell Caeriw a oedd yn gwahodd gwirfoddolwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys taith gerdded pwll melin/bywyd gwyllt, crefftau a gemau traddodiadol a gwledd â thema ganoloesol. Cytunwyd bod cael amserlen o ddigwyddiadau wedi'u hamseru yn gweithio'n dda ac y dylid ystyried fformat tebyg ar gyfer 2025.<br>Trafodwyd opsiynau Oriel y Parc (mewn partneriaeth â sefydliadau eraill) neu Gaeriw unwaith eto fel lleoliad ar gyfer 2025/6.<br><br>Cynigiodd RE fod y dathliad yn cael ei symud i'r Gwanwyn pan fydd hi'n dawelach o ran digwyddiadau - pawb wedi cytuno. | |
| **Gwelliannau i'r Fforwm Gwirfoddolwyr**<br>Gofynnodd RE am adborth ar ffyrdd o wella'r gwaith o gydlynu a chynnal y fforwm gwirfoddolwyr wrth symud ymlaen.<br><br>Cytunwyd y dylid ystyried dirprwy Gynrychiolwyr y Fforwm i sicrhau bod cynrychiolaeth ar gyfer pob grŵp gwirfoddol yng nghyfarfodydd y fforwm. | |

| | |
|---|---|
| Cadarnhaodd RE y bydd yn cyfarfod â chynrychiolydd gwirfoddolwyr yr Aelodau Sam Blacklaw-Jones yn fuan. | RE i gysylltu â rheolwyr llinell i wahodd dirprwy gynrychiolwyr grŵp fel aelodau o'r fforwm |
| **Wardeniaid gwirfoddol NW**<br>Trafodwyd y niferoedd isel o wirfoddolwyr ar gyfer y grŵp hwn a chytunwyd bod angen rhywfaint o ystyriaeth i weithio allan sut i ddenu aelodau yn y dyfodol gan gymryd i ystyriaeth eu hanghenion, ee lleoliad yn fwy anghysbell, partïon â diddordeb yn dal i weithio. Awgrymwyd y dylid ystyried sesiynau gwirfoddoli ar y penwythnos. | RE i drafod sesiynau penwythnos gyda Richard Vaughan. |

## 5. Unrhyw Fater Arall

| | |
|---|---|
| **Ffurflenni hawlio treuliau**<br>Gofynnodd Jon King (trwy RP) sut mae'r tîm yn rheoli hawliadau treuliau ar gyfer gwirfoddolwyr nad ydynt yn gallu cyflwyno mewn fformat digidol.<br>Cadarnhaodd SB ei bod yn gweithio'n hyblyg i alluogi pobl i gyflwyno ffurflenni papur (sy'n cael eu teipio ar y system) ac y bydd y cymorth hwn ar gael bob amser. | |
| **Gwell Effaith**<br>Jon King (trwy RP) - Nodwyd gwallau cyflwyno parthed dyddiadau penodol gweithgareddau wedi'u cofnodi. Mae RE/SB yn cadw golwg ar yr oriau a gofnodir ac yn cywiro lle bo modd. | |
| **Pobl wrth gefn Gweithgareddau a Digwyddiadau**<br>Jon King (trwy RP) - Ar hyn o bryd mae 2-3 o bobl wrth gefn wedi'u rhestru ar gyfer pob digwyddiad sydd weithiau'n ei gwneud hi'n anodd i wirfoddolwyr wneud trefniadau personol gan eu bod yn aros i ddarparu cyflenwi posibl hyd at ddiwrnod y digwyddiad.<br>Awgrymwyd cytuno ar amser 'terfyn' ar gyfer tymor 2025 neu efallai ychwanegu llai o wirfoddolwyr at y rhestr wrth gefn. | Gwirfoddolwyr Gweithgareddau a Digwyddiadau i godi hyn gyda Sarah Parmor yn y cyfarfod Gweithgareddau a Digwyddiadau diwedd tymor ar 18/11 |
| **Rhestr o ddigwyddiadau O Lan i Lan**<br>Jon King (trwy RP) - Rhannodd GL fod y digwyddiadau a restrir yn O Lan i Lan yn cael eu mynychu'n well na digwyddiadau nad oeddent yn cael eu rhestru. Awgrymwyd gan bawb, os nad oes lle ar gael i restru'r holl ddigwyddiadau, y gellid cynnwys cod QR i gyfeirio pobl at y rhestr lawn o ddigwyddiadau ar y wefan. | Gwirfoddolwyr Gweithgareddau a Digwyddiadau i godi hyn gyda Sarah Parmor yn y cyfarfod Gweithgareddau a Digwyddiadau diwedd tymor ar 18/11 |
| **Caniatâd i dynnu lluniau**<br>Tynnodd MC sylw at y ffaith nad oedd modd rhannu lluniau o'r daith breswyl ieuenctid i Fannau Brycheiniog er bod ffurflenni caniatâd lluniau wedi'u cyflwyno. Gofynnodd i'r Ceidwaid Ieuenctid gael esboniad i'w helpu i ddeall y pwnc. | RE i ofyn i Maisie Sherratt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ceidwaid Ieuenctid. |